# PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 2 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

## 31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hill-John, Lancaster, Michael a Wild.

## 32 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 33 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 34 : CYFARWYDDIAETH CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD - BRIFFIO CYLLIDEB

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn briffio ar y gyllideb ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, gan gynnwys diweddariad cynnydd ar sut mae'r Gyfarwyddiaeth yn perfformio yn erbyn y gyllideb a'r arbedion a gytunwyd ar gyfer 2018/19; unrhyw bwysau ariannol sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth; maint yr arbedion cyllideb sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth yn 2019/20; a'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dod o hyd i arbedion cyllideb ar gyfer 2019/20 a thu hwnt.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am reoli 1,116 o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu rhychwant eang o wasanaethau. Nodwyd trosolwg o'r gwasanaethau a gyflenwir a chrynodeb o'r gwariant a'r incwm am y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2017/18 yn yr adroddiad.

Cynghorwyd Aelodau fod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol wedi ystyried y cynigion cyllideb ar gyfer y Gyfarwyddiaeth ar 14 Chwefror 2018. Roedd arbedion arfaethedig o £1.838 miliwn wedi eu rhoi ger bron. Gosodwyd amlinelliad o'r arbedion hynny yn Nhabl 2 yr adroddiad. Yn ogystal â'r arbedion arfaethedig, roedd y broses gosod cyllideb ar gyfer 2018/19 yn cynnwys darparu ar gyfer pwysau ariannol a mecanwaith cyllido i sicrhau gwydnwch ariannol. Derbyniwyd yr arbedion arfaethedig o £1.838 miliwn, cynnig pwysau ariannol o £523,000 a chynnig gwydnwch ariannol o £2.102 miliwn yng Nghyfarfod Cyllideb y Cyngor ar 22 Chwefror 2018.

Tanlinellodd yr adroddiad Monitro Cyllideb Mis 4 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 20 medi 2018 ragolwg o orwariant ar gyfer y Gyfarwyddiaeth o £1,424 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Gofynnwyd i Swyddogion y Gyfarwyddiaeth roi diweddariad ar y rhagolygon cyllidebol ar gyfer 2018/19; cynnydd yn erbyn cyflawni arbedion cyllidebol 2018/19; targedau arbedion arfaethedig ar gyfer 2019/20 a blynyddoedd i ddod; a'r broses oedd yn cael ei dilyn ar gyfer canfod sut y cyflawnid yr arbedion.

Croesawodd y cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i wneud datganiad byr. Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelodau fod Rheoli Gwastraff yn gyfrifol am ran helaeth o orwariant y Gyfarwyddiaeth. Gofynnodd Aelodau a oedd y ffigwr o £1.4 miliwn wedi i'r swm wrth gefn o'r mecanwaith gwydnwch ariannol gael ei gyfrif. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y ffigwr cyn gweithredu'r mecanwaith gwydnwch ariannol.

- Gofynnodd Aelodau am enghreifftiau o unrhyw fesurau a gymerwyd i wella presenoldeb. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rheoli salwch yn cael ei weithredu'n effeithiol ac y gellir profi hyn. Mae rheoli salwch tymor hir yn fater cymhleth yn y maes Rheoli Gwastraff a rhaid ystyried oed y gweithlu a'r amgylchedd gwaith. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn edrych ar y problemau sylfaenol ac yn nodi unigolion. Mae gofyn cael ymateb corfforaethol systematig.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod adolygiad o'r gwasanaeth Rheoli Gwastraff yn mynd rhagddo. Mae yna 6 neu 7 thema i'r adolygiad a bydd adroddiad yn cael ei ddwyn ger bron maes o law. Mae'r adolygiad eisoes yn cynnig data mwy cadarn.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut oedd y Gyfarwyddiaeth yn bwriadu ateb ei darged arbedion cyllidol o £1.8 miliwn os yw eisoes yn gorwario eleni. Ystyriai Aelodau fod absenoldeb salwch wedi ei nodi fel problem lawer blwyddyn yn ôl. Mae cyllidebau yn gynyddol dynnach ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn debygol o gael trafferth dod o hyd i arbedion felly mae angen cynllun i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch.

- Nododd yr Aelodau y gorwariant o £322k ar y Gwasanaethau Trafnidiaeth Ganolog (GTC). Nododd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nad oedd digon o ddefnydd ar gerbydau fflyd sawl blwyddyn yn ôl ac fe gynghorwyd y Pwyllgor bryd hynny fod yr awdurdod wedi ei glymu i gontractau. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am sylw. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod tîm rheoli newydd, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cynorthwyol, yn eu lle. Roedd adolygiad sylfaenol yn mynd rhagddo a byddai hwn yn sail i gynllun gweithredu.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r cyfarwyddwr wneud sylw ar y diffyg gwybodaeth parthed llif gwastraff. Nododd y Cyfarwyddwr ei fod yn cael ei fesur mewn rhai pwyntiau prosesu, megis gan Viridor. Ond yn CAD a CAGC nid yw'n cael ei fesur. Mae tunelli yn cael eu mesur, ond nid oedd y system bapur yn cael ei reoli o ran ei gywirdeb. Roedd angen brys i ddeall y data hwn.

- Holodd Aelodau pa mor gywir oedd y ffigyrau ailgylchu a roddwyd i lywodraeth Cymru ac a fyddai llywodraeth Cymru wedi gwirio ffigyrau casglu gwastraff y Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y ffigwr a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn cynrychioli'r targed cyffredinol ar gyfer ailgylchu. Roedd yna oedi wrth gasglu'r wybodaeth a roddwyd i

Lywodraeth Cymru ac fe dderbyniodd yr awdurdod ddirwy o ganlyniad. Er efallai bod cyfanswm y ffigwr ailgylchu yn wybyddus, roedd dal angen deall y data.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr roi sylw ar y targedau incwm a'r cynnydd o ran gwasanaethau casglu gwastraff masnachol. Nododd y Cyfarwyddwr fod incwm o gasgliadau gwastraff masnachol ar gynnydd, ond nad yw'r twf cyn gryfed ag y disgwylid.
- Holodd Aelodau os oedd y sefyllfa gorwario yn debygol o wella neu waethygu. Nododd y Cyfarwyddwr fod y sefyllfa 6 Mis yn peri pryder. Bu'n rhaid ysgwyddo gwariant o £500k yn ymwneud â'r achos twyll CAGC, a bod hwn yn debygol o gynyddu i £700k i £800k erbyn diwedd y flwyddyn.

- Nododd yr aelodau danwariant o £489k ar Briffyrdd. Holodd Aelodau faint a oedd wedi ei dynnu lawr o'r gronfa barcio wrth gefn ac ar gyfer beth y dynodwyd y cyllid hwnnw. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod oddeutu £400k wedi ei dynnu lawr o'r gronfa barcio wrth gefn a'i fod wedi ei wario ar brojectau priffyrdd.

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y gordaliadau a wnaed i staff. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod 'sampl dipio' yn awgrymu fod nifer o ordaliadau bychain wedi eu gwneud ar sawl achlysur.

- Wrth ymateb i gwestiwn yn ymwneud a chynnydd digideiddio yn y Gyfarwyddiaeth, dwedwyd wrth Aelodau fod cyflwyniad graddol ar feddalwedd optimeiddio llwybrau yn cymryd yn hwy nag y disgwylid i'w weithredu. Roedd angen ar frys hefyd i ddwyn meddalwedd i mewn a fyddai'n cynnig data systematig clir yn GTC.

- Holodd Aelodau os oedd y pwysau ariannol yn ymwneud â'r marchnadoedd ail-werthu ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy yn debygol o barhau a pha waith oedd yn mynd rhagddo i liniaru unrhyw risg. Dwedwyd wrth y Pwyllgor fod y Strategaeth Wastraff yn cael ei adolygu oherwydd oriogrwydd yn y marchnadoedd. Bydd gofyn cael mentrau penodol i gyrraedd targed ailgylchu o 64%. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i newid y modd y mae gwastraff yn cael ei gasglu. Bydd hyn yn bwydo i'r adolygiad ar y Strategaeth Gwastraff.

- Holodd Aelod y Cyfarwyddwr am sylw ar gynllunio hapddigwyddiadau'r Gyfarwyddiaeth yn deillio o 'Brexit'. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod prif ffocws y Gyfarwyddiaeth ar y gyllideb, cynhyrchiant, data a strwythurau.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

35 : DIWEDDARIAD AR RAGLENFEICIO CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad ar ddatblygiad parhaus rhaglen feicio Caerdydd. Gofynnwyd i Aelodau ystyried: pam fod beicio yn bwysig, tueddiadau nawr ac a ragamcennir; datblygiad yn y dyfodol; cynlluniau seilwaith; gwaith partneriaeth; heriau beicio yng Nghaerdydd; a phrif gamau gweithredu yn

ymwneud â beicio yng Nghynllun Cyflenwi'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, trafnidiaeth ac Amgylchedd 2018/19.

Dwedwyd wrth Aelodau fod beicio yn cael ei ystyried fel arf bwysig i reoli twf y ddinas yn y dyfodol. Cyfran y trigolion a deithiai i'r gwaith ar feic yn 2017 oedd 16.5%, o'i gymharu â 51.6% sy'n teithio mewn car. Mae cyfran y preswylwyr sy'n teithio i'w gwaith ar feic wedi dyblu ers 2005. Dangosodd arolwg Bywyd Beicio Caerdydd 2018 fod 26% o breswylwyr Caerdydd nad sy'n beicio ar hyn o bryd yn dymuno gwneud hynny a chred y Cyngor y byddai'r preswylwyr hyn yn beicio pe gellid gwella'r amodau ar gyfer beicio.

Disgwylir i boblogaeth Gaerdydd gynyddu 79,918 rhwng 2006 a 2026 a disgwylir i nifer y swyddi yn y ddinas gynyddu 40,000. Golyga hyn y bydd nifer y siwrneiau teithio yn cynyddu 14%. Er mwyn ateb y twf hwn yn y galw a rheoli teithio mae'r Cyngor wedi gosod targed i 50% o bob trip i gael eu gwneud trwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2026. Mae'r nod yma wedi ei osod yn y Cynllun Datblygu Lleol fel arf hanfodol i allu rheoli lefel y twf sy'n cael eu darogan ar gyfer y ddinas.

Er mwyn helpu i gyrraedd y targedau hyn mae'r cyngor yn gobeithio dyblu nifer y teithiau ar feic erbyn 2026. Golyga hyn fod yn rhaid i'r rhwydwaith allu cynnal 38,000 o dripiau ar feic yn ychwanegol bob dydd. Mae'r cyngor wedi nodi nifer o flaenoriaethau seilwaith i wireddu'r uchelgais yma. Nodwyd crynodeb o bob un yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr, a Matt Price, Arweinydd Adran, Gweledigaeth, Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth. Gwnaeth y Cyfarwyddwr ddatganiad byr. Gwahoddwyd Matt Price i roi cyflwyniad.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Roedd Aelodau o'r farn ei bod yn aml yn anodd gosod seilwaith feicio newydd ar ben ffyrdd a oedd yn bodoli eisoes. Gofynnodd Aelodau, o ystyried yr anawsterau hyn, pam nad oedd darpariaeth feicio ar y Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae newydd. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae wedi ei dylunio 4-5 mlynedd yn ôl, cyn cyhoeddi'r canllawiau newydd. Pe dylunnid y cynllun heddiw yna byddai disgwyliad absoliwt i ddarpariaeth feicio gael ei chynnwys. Mynegodd Aelodau syndod na chafodd y cynllun ei hail-ddylunio. Dwedodd swyddogion mai'r arfer gorau oedd cynnig llwybrau beicio newydd i le mae pobl yn byw. Fodd bynnag, mae Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae yn cynnwys Llwybr a rennir rhwng beicwyr a cherddwyr.

- Holodd Aelodau o le mae'r twf mewn teithiau beicio wedi dod. Dwedodd swyddogion mai eu hargraff hwy oedd bod y twf mewn beicio wedi dod o deithio mewn ceir a bysiau ond y byddai'n rhaid ymgynghori a chydweithwyr i fod yn sicr. Ystyriai Aelodau fod cael eglurder ar y mater hwn yn bwysig gan y byddai'r wybodaeth yn bwydo i benderfyniadau yn y dyfodol.
- Cododd Aelod bryderon am y diffyg traffordd feicio ym maestrefi'r gogledd, yn enwedig ar goridor Manor Way/ Heol y Gogledd. Dwedodd y cyfarwyddwr fod ystyriaeth yn cael ei roi i brif lwybrau a llwybrau

eilaidd.  Mae cost cynllun ysgafn ar wahân yn hanner cost traffordd feicio.  Mae cynllun ysgafn yn mynd rhagddo ar Heol Maes-y-Coed a bydd Taith y Taf yn cael ei huwchraddio.

- Gofynnwyd i swyddogion roi amserlen ar gyfer cynllun Heol Casnewydd. Awgrymodd y Cyfarwyddwr fod cyllid yn ei le ar gyfer rhan o'r llwybr a'r bwriad oedd cyflenwi gymaint ag y bo modd yn y 2½ mlynedd nesaf, gan ddechrau yng Nghanol y Ddinas ac ymestyn am allan.  Mae angen graddoli gwaith yng nghanol y Ddinas er mwyn lleihau ei effaith ar y Ddinas.

- O ran llwybrau eilaidd, holodd Aelodau a fyddai'r rhain yn gweld budd rhoi arwyddion newydd ar waith, yn enwedig lle roedden nhw'n croesi prif lwybrau, ayb    Dwedodd swyddogion os darperir seilwaith newydd yna bod angen o hyd i alluogi pobl i oresgyn pa rwystrau bynnag sydd yna'n eu hatal rhag defnyddio'r llwybrau hyn.  Bydd mesurau i arafu traffig ac arwyddion clir yn allweddol i hyn.

- Dwedodd swyddogion y bydd cwmpas y rhwydwaith yn cynyddu wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg.  Mae'r map rhwydwaith yn dangos y rhwydwaith ar ddechrau'r broses a bydd haenau yn cael eu hychwanegu gan gynyddu'r dwyster.

- Holodd aelodau beth oedd y gwariant presennol y pen ar ddarpariaeth feicio a lle'r oedd angen i'r gwariant y pen fod.  Dwedodd swyddogion fod gwariant ar hyn o bryd oddeutu £4 y pen.  Mae'r grŵp lobio beicio yn chwilio am £20 y pen.  Mae'r cyngor wedi addo £6miliwn dros 3 blynedd ar gyfer creu traffyrdd beicio.  Bydd y rhwydwaith yn ei chyfanrwydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol; tua £60 miliwn.

- Gofynnwyd i swyddogion egluro'r rhesymeg a'r meini prawf i ddatblygu'r draffordd feicio gyntaf ar hyd Heol Senghennydd.  Dwedodd swyddogion fod Heol Senghennydd yn cynnig cyfle er mwyn datblygu'r cam cyntaf yn gyflym.  Mae Cathays Terrace yn cysylltu â Stuttgart Strasse  a Cathays Terrace oedd y llwybr mwyaf amlwg o ran ymarferoldeb a lleoliad. Byddai'r llwybr hefyd yn rhoi cyfle i bobl ymgyfarwyddo â'r cysyniad. Dwedwyd wrth Aelodau fod tystiolaeth yn awgrymu lle caiff traffyrdd beicio eu datblygu fod siopau lleol yn gallu gweld cynnydd o 15% mewn masnach.

- Holodd Aelodau a fyddai cyfyngiadau beicio mewn rhai rhannau o'r ddinas yn cael eu codi, e.e. Heol y Frenhines.  Dwedodd y Cyfarwyddwr y byddai amodau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol a bod angen ystyried buddiannau lu o bob cyfeiriad.  Elfen allweddol yn y rhwydwaith feicio fyddai cylched feicio ar wahân o amgylch Canol y Ddinas.

- Holodd Aelodau os oedd yna ddynodiad cyllideb ar gyfer cynnal a chadw llwybrau beicio.  Cadarnhaodd swyddogion tra bod cyllid cyfalaf wedi ei sicrhau ar gyfer darparu'r seilwaith feicio, nad oedd cyllideb ar wahân ar gyfer cynnal a chadw llwybrau beicio.

- Dwedodd swyddogion eu bod yn cadw at yr amserlen i gyflwyno'r

cynllun 20mya.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

36 : DIWEDDARIAD GOHEBIAETH - ADRODDIAD GWYBODAETH

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

Trafododd y Pwyllgor yr ymgynghoriad GDMC (Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus) ac roedd budd y cyhoedd yn y pwnc yn amlwg gan nifer yr ymatebion a dderbyniwyd. Credai'r Pwyllgor y dylid cynnal cyfarfod arbennig i graffu ar y mater. Gofynnwyd i'r Prif Swyddog Craffu edrych ar ddyddiadau posib. Trafododd yr Aelodau hefyd i wahodd aelodau ward ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

CYTUNWYD – Bod cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i gael ei drefnu er mwyn craffu ar yr ymarferiad ymgynghori GDMC.

37 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

38 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 6 Tachwedd 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm